# Cenn@d

AWST 10 2022 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* — RHIF 76


## Yr Eglwysi'n Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Yn rhifyn yr wythnos diwethaf o Cenn@d cafwyd adroddiad am yr oedfa a gynhaliwyd yn y pafiliwn ar fore Sul yr Eisteddfod. Dilynwyd yr oedfa y noson honno gan y Gymanfa Ganu flynyddol, a braf yw tystio i lond pafiliwn o ganu moliant. Diolch i Delyth Hopkins Evans am arwain y gymanfa mor effeithiol, gan greu naws addolgar a defosiynol. Bu i nifer a fu yno dystio i'r angerdd a'r llawenydd a deimlwyd yno, a hyn efallai'n adlewyrchu effaith y cyfnod clo wrth i'r canu a'r cymanfaoedd gael eu tewi dros dro. Cofiwch fod modd gwylio'r oedfa a'r gymanfa ar S4Clic dros yr wythnosau nesaf hyn.

Bu Pabell yr Eglwysi o dan nawdd Cytûn yn llawn bwrlwm gydol yr wythnos, ac adroddir ychydig o'r hanes yn y lluniau a'r capsiynau sy'n dilyn. Daeth dros 150 o wirfoddolwyr lleol i weithio ar y stondin yn ystod yr wythnos, ac fe hoffai Aled a Delyth Wyn Davies, a fu'n trefnu'r babell ar ran Cytûn, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a fu'n rhan o'r bwrlwm hwn.





Yn rhan o lansiad y gyfrol *Malwan Bach fel fi … yn cloddio am aur* gan Prydwen Elfed-Owens, dan gadeiryddiaeth John Roberts, *Bwrw Golwg*, holwyd Aled Davies, Beti-Wyn James, Alwyn Humphreys a Rhys Llwyd.



Y babell wedi ei pharatoi yn barod ar gyfer agor bore Sadwrn. Diolch o galon am gymorth parod y llu o wirfoddolwyr o eglwysi lleol, ond yn fwyaf arbennig i Carwyn ac Alicia Arthur o Dregaron am roi wythnos gyfan i ni er mwyn gofalu am y babell.



Braf fu croesawu Ifan Gruffydd atom i gynnal oedfa, a hynny yng nghwmni Carlo'r ci. Siaradodd am ddameg y ddafad golledig, gan bwysleisio bod Iesu yn caru ac yn gofalu am bob un ohonom. Diolch i'r dyrfa o blant a ddaeth i mewn atom i glywed y stori.




Nos Fercher cafwyd cyfle i gynnal digwyddiad arbennig i ddiolch i'r Parch. Tom Defis o Gymorth Cristnogol am flynyddoedd o waith fel trefnydd y de-orllewin. Daeth llond pabell ynghyd – nifer wedi teithio cryn bellter er mwyn bod yno i ddiolch i Tom.



Bwrlwm y babell – bu prysurdeb rhyfeddol yn y babell gydol yr wythnos. Paratowyd 6,000 o baneidiau o de neu goffi, a rhannwyd 5,000 o deisennau cri. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Parch. Eifion Arthur Roberts am gludo'r teisennau cri i mewn atom bob dydd.



Daeth Gwilym Tudur a Gruffydd Rhys Davies atom un bore i gynnal oedfa, a hynny yn enw'r Gorlan Gristnogol. Buont ill dau'n gweithio'n ddyfal yn ystod yr wythnos yn sgwrsio ar y babell Gristnogol arall ar y maes, sef stondin y Mudiad Efengylaidd.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Sylw o'r Seidin 'ddim fel yr hafau a fu …' **Tudalen 4**

Y Silff Lyfrau **Tudalen 5**

Dathlu yn Shillong **Tudalen 7**

## *Yr Eglwysi'n Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol*


*(parhad o dudalen 1)*




Cornel gweithgaredd y plant – braf fu cael cyfeillion o fudiad Plant Dewi yn gwirfoddoli gan drefnu amrywiaeth o grefftau a gweithgareddau ar gyfer y plant.



Anne Uruska o'r Cylch Catholig yn arwain oedfa'r bore, gyda Delyth Wyn yn cyfeilio.



Dysgwr o California yw Phil Wyman. Erbyn hyn mae'n rhugl yn y Gymraeg ac yn genhadwr yng Nghaernarfon. Daeth i mewn atom un bore i rannu detholiad o ganeuon Cristnogol.




Tu allan i'r babell, dan nawdd Cymdeithas y Beibl, roedd yna ardd Feiblaidd, wedi ei hysbrydoli gan ardd o Sioe Flodau Chelsea. Trwy glicio ar ddolen i wefan ar eich ffôn, roedd modd gwrando ar fyfyrdod pum munud yn esbonio ystyr ac arwyddocâd Salm 23.



Braf fu cael cwmni tri llywydd enwadol ar y stondin yr un pryd, sef Evan Morgan, Llywydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru; Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a Densil Morgan, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Bu i'r tri dreulio amser ar y stondin yn ystod yr wythnos yn croesawu ymwelwyr i'r babell.



Bob blwyddyn ceir detholiad da o lyfrau a lansio nifer o gyfrolau newydd. Un gyfrol a welodd olau dydd gan awdur o Geredigion oedd *Geiriadur y Gair*, sef geiriadur Beiblaidd newydd gan D. Geraint Lewis.



Traddodiad eisteddfodol blynyddol yw'r offeren o dan nawdd yr Eglwys Gatholig, a gynhaliwyd eleni yn Eglwys y Santes Fair yn Nhregaron.

Er mai pabell o dan nawdd Cytûn yw hon, cofiwch mai'r enwadau sy'n perthyn i fudiad Cytûn sy'n berchen ar y babell a'r gwaith. Braf eleni oedd cael baner newydd yn nodi enwau'r 14 enwad sy'n ffurfio Cytûn, ynghyd â nifer o fudiadau ac asiantaethau Cristnogol.